

# Prif Weithredwr yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn cyhoeddi ei ymddeoliad

Mae Prif Weithredwr yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB), Jason Feeney CBE wedi cyhoeddi ei fod yn ymddeol o'r adran ar ôl mwy na dwy flynedd yn y rôl.

Bydd yn parhau i oruchwyllo'r cyfnod pwysicaf o baratodau'r ASB ar gyfer Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE) cyn gadael y rôl ym mis Mehefin.

Ymunodd Mr Feeney â'r ASB fel Prif Swyddog Gweithredu yn 2015 cyn cael ei benodi'n Brif Weithredwr ym mis Ebrill 2017.

Mae'n ymddeol wedi gyrfa o 38 mlynedd yn y Gwasanaeth Sifil, a dyfarnwyd CBE iddo yn 2011.

Meddai Jason Feeney, Prif Weithredwr yr ASB:

“Bu'n benderfyniad anodd iawn. Rwy'n hynod falch o'r sefydliad hwn, a'r holl waith rydym wedi'i gyflawni gyda'n gilydd, yn enwedig wrth baratoi i Ymadael â'r UE. Rwyf wedi bod yn y Gwasanaeth Sifil er pan oeddwn yn 18 oed, nôl yn 1981, ac mae wedi bod yn yrfa wych.”

“Rwyf wir yn hyderus y bydd yr ASB yn cyflawni pethau gwych yn y dyfodol. Mae Heather yn Gadeirydd gwych ac mae gan yr Asiantaeth dîm gweithredol galluog iawn. Mae gwydnwch, ymroddiad ac angerdd y bobl rwyf wedi cael y fraint o weithio gyda nhw heb ei ail.”

Meddai Cadeirydd yr ASB, Heather Hancock:

“Mae Jason Feeney wedi bod yn Brif Swyddog Gweithredu eithriadol i'r ASB, yn ystod rhai o flynyddoedd mwyaf heriol yr adran. Mae ei arweinyddiaeth bersonol ar y gwaith o Ymadael â'r UE a thrawsnewid rheoleiddiol wedi bod o'r radd flaenaf”.

“Rwyf yn edmygu ei gyflawniadau a'i effaith tra'n gweithio i'r ASB – gyda'n pobl, gyda chydweithwyr ar draws llywodraeth genedlaethol a lleol, a gyda'r diwydiant. Rwy'n siarad ar ran bawb o Fwrdd yr ASB pan ddywedaf ba mor ddiolchgar ydyn ni bod Jason wedi dewis dod a'i yrfa nodedig i ben drwy arwain yr ASB at ddyfodol cyffrous.”